# Y Tîm Diogelu Iechyd

# MODEL
# Cynllun Wrth Gefn ar gyfer Clefydau Heintus i Brifysgolion a Cholegau Preswyl

## Yn cynnwys: Offeryn Hyrwyddo Iechyd Rhagweithiol i Ddechreuwyr Newydd

## Medi 2025 (fersiwn 8)

## Rhifyn Prifysgol/Coleg Preswyl

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynhyrchwyd yn wreiddiol gan: Jo Smith<br>Rheolwr Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd,<br>Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam | Addaswyd a golygwyd gan Sue Morgan<br>Nyrs Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru | Diwygiwyd: Medi 2025 | Fersiwn: 8 |
| | Diwygiwyd a diweddarwyd gan Avril O'Gorman, Louise Richards a Gemma Davies<br>Nyrsys Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru | | Tudalen 1 o 10 |

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r Polisïau, y Canllawiau a'r Taflenni Gwybodaeth Iechyd a Diogelwch priodol o fewn y Brifysgol/Coleg Preswyl.

## Cyflwyniad

Addaswyd y Cynllun Wrth Gefn ar gyfer Clefydau Heintus hwn gyntaf yn 2017 gyda chaniatâd caredig Rheolwr Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam, Gogledd Cymru a chydweithwyr y Tîm Diogelu Iechyd yng Ngogledd Cymru. Disodlodd y ddogfen Gynlluniau blaenorol y Tîm Diogelu Iechyd ar gyfer delio â Llid yr Ymennydd a Chlefyd Meningococol mewn Prifysgolion a Cholegau Preswyl.

Mae'r Cynllun, a ddiwygiwyd yn Haf 2020, yn amlinellu'r camau i'w cymryd gan Brifysgolion a Cholegau Preswyl pan amheuir neu pan gadarnheir bod gan fyfyriwr neu aelod o'u staff glefyd trosglwyddadwy ac mae'n ymgorffori 'Canllawiau ar atal a rheoli llid yr ymennydd meningococol a septisemia mewn sefydliadau addysg uwch'[1].

Darperir y cynllun wrth gefn mewn 2 ran 1) yr ymateb adweithiol a 2) yr ymateb rhagweithiol.

Prif nod y cynllun yw hyrwyddo camau gweithredu a fyddai'n cynorthwyo ag atal a/neu leihau lledaeniad posibl clefydau trosglwyddadwy o fewn y Brifysgol/Coleg Preswyl a bydd yn cynorthwyo'r Brifysgol/Coleg Preswyl, y Tîm Diogelu Iechyd, y Bwrdd Iechyd Lleol a Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yr Awdurdod Lleol i reoli achosion unigol a/neu frigiadau o achosion.

Ers mis Medi 2023, mae'r cynllun hefyd yn cynnwys cynllun rhagweithiol ac adnoddau ar gyfer gweithredu hyrwyddo iechyd gyda diddordeb arbennig mewn Wythnos y Glas a dechreuwyr newydd. Mae hyn yn cynnwys llythyr y gellir ei ddosbarthu cyn dechrau neu yn ystod Wythnos y Glas, annog cofrestru gyda meddyg teulu, parhau i hyrwyddo brechu, er enghraifft atal Llid yr Ymennydd, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o haint Twbercwlosis a sgrinio ar ei gyfer.

# 1) Ymateb Adweithiol y Cynllun Wrth Gefn

## Cefndir

Mae'r Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru[2] yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli brigiadau o glefydau trosglwyddadwy sydd â goblygiadau i iechyd y cyhoedd yng Nghymru, ac mae'n cynnwys lleoliadau addysgol. Rhaid hysbysu awdurdodau iechyd cyhoeddus am glefydau o bwys i iechyd y cyhoedd o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd)[3]. Rhoddir rhestr o'r clefydau hysbysadwy hyn yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010

Mae'r Cynllun hwn yn nodi ymateb y Brifysgol/Coleg Preswyl i un achos neu frigiad o achosion o glefyd trosglwyddadwy ymhlith ei haelodau staff a/neu fyfyrwyr. Bwriedir iddo ategu'r

prosesau a'r camau gweithredu cyffredinol y mae'r Brifysgol/Coleg Preswyl yn eu dilyn i reoli unrhyw argyfwng, fel yr amlinellir yn eu Cynllun Cynllunio ar Argyfyngau a Pharhad Busnes. Nod y Cynllun hwn yw sicrhau bod:

- Sianeli cyfathrebu digonol yn bodoli gyda chymuned y Brifysgol/Coleg Preswyl (staff, myfyrwyr a'r cyhoedd).
- Mecanweithiau cymorth effeithiol ar waith i aelodau staff a myfyrwyr.
- Cynnal cysylltiadau da gyda'r Brifysgol/Coleg Preswyl, y Tîm Diogelu Iechyd, y Bwrdd Iechyd Lleol a Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yr Awdurdod Lleol.
- Mae gan y Brifysgol/Coleg Preswyl fynediad at y cyngor mwyaf cyfredol a phriodol ar reoli unrhyw glefyd trosglwyddadwy.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n debygol y bydd y Brifysgol/Coleg Preswyl yn cael gwybod gan y teulu, y Tîm Diogelu Iechyd neu'r Meddyg Teulu am achos a amheuir neu a gadarnheir o glefyd trosglwyddadwy sydd ag arwyddocâd i iechyd y cyhoedd.

Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl y bydd y Brifysgol/Coleg Preswyl yn dod i wybod am broblem yn y lle cyntaf trwy hysbysiad gan aelod o staff, myfyriwr neu aelod o'r cyhoedd.

## Rolau a Chyfrifoldebau

## Prifysgol/Coleg Preswyl

Os daw aelod o staff i wybod am un achos neu fwy a amheuir neu a gadarnheir o glefyd trosglwyddadwy, Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010 Appendix 1, yna dylid hysbysu'r person a nodir ym Mholisi Argyfwng y Brifysgol/Coleg Preswyl e.e. pennaeth lles/iechyd myfyrwyr.

Yna bydd y person hwn a nodir yn cysylltu â'r Tîm Diogelu Iechyd (TDI) i gael cyngor (tudalen 5). Ar ôl ymgynghori â'r Tîm(au) Clinigol sy'n rheoli'r achos(ion), bydd y Tîm Diogelu Iechyd fel arfer yn cynghori'r person a nodir os oes arwydd bod angen i'r Tîm Diogelu Iechyd gynnull Tîm Rheoli Digwyddiadau/Brigiad o achosion. Os felly, bydd y person a nodwyd, ar ôl ymgynghori â'r sawl sy'n gyfrifol am Weithrediadau yn y Brifysgol/Coleg Preswyl, yn sefydlu Tîm Lefel Tactegol o'r aelodau craidd canlynol (neu gyfwerth)* yn y Brifysgol/Coleg Preswyl i reoli'r sefyllfa yn unol â'u Cynllun Cynllunio at Argyfyngau a Pharhad Busnes:

**NODER: Aelodau o'r Tîm Rheoli Digwyddiadau** - mae'n bosibl y bydd rolau rhai o'r mynychwyr yn cael eu dyblygu (h.y., ystadau a llety). Sylwch mai'r ROLAU sy'n ofynnol, nid un person ar gyfer pob pwynt bwled, felly gall unigolyn gyflawni llawer o rolau o fewn lleoliad.

- Person sy'n gyfrifol am Weithrediadau.
- Person sy'n gyfrifol am Iechyd a Diogelwch.
- Person sy'n gyfrifol am Adnoddau Dynol.
- Person sy'n gyfrifol am Ystadau neu Reolwr Dynodedig.
- Person sy'n gyfrifol am Ofal Iechyd Myfyrwyr.
- Person sy'n gyfrifol am Gyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus.
- Cyfarwyddwr Undeb (neu Urdd) y Myfyrwyr.
- Cynrychiolydd Gwasanaethau Myfyrwyr.

- Person sy'n gyfrifol am Les Rhyngwladol neu Gynrychiolydd Dynodedig (pan fo’r myfyriwr/myfyrwyr dan sylw o dramor).
- Person sy'n gyfrifol am Lety.
- Person sy'n gyfrifol am Wasanaethau Masnachol neu gynrychiolydd dynodedig (pan fo’r myfyriwr/myfyrwyr dan sylw yn byw mewn Neuadd Breswyl Prifysgol/Coleg Preswyl).
- Gellir gwahodd cynrychiolydd o'r Tîm Diogelu Iechyd i fynychu hefyd.
- Efallai y bydd cynrychiolydd o’r Bwrdd Iechyd Lleol yn cael gwahoddiad i fynychu hefyd.
- Efallai y bydd cynrychiolydd o Wasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yr Awdurdod Lleol yn cael gwahoddiad i fynychu hefyd.

*Gellir cyfethol aelodau eraill, yn ôl yr angen. Os bydd aelod craidd yn absennol o'r gwaith, gall anfon cynrychiolydd.

## Bydd y Tîm Diogelu Iechyd (ar y cyd â thimau'r Brifysgol/Coleg Preswyl, y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Awdurdod Lleol) yn:

- Cael hysbysiadau o glefydau trosglwyddadwy a amheuir neu a gadarnhawyd[3.] Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010.
- Cydlynu'r ymateb amlasiantaethol i'r digwyddiad/brigiad o achosion os bydd angen.
- Rhoi cyngor diogelu iechyd ar gyfer yr achos/digwyddiad.
- Trefnu profi samplau mewn labordy, yn ôl yr angen.
- Cadeirio'r Tîm Rheoli Digwyddiadau/Rheoli Brigiad o Achosion (os yw'n briodol).
- Canfod achosion ac olrhain cysylltiadau.
- Trefnu imiwneiddio a/neu broffylacsis ar gyfer achosion, cysylltiadau ac eraill yr ystyrir eu bod mewn perygl.
- Arwain ar gyfathrebu amlasiantaethol, gan gynnwys y cyfryngau.

## Camau Gweithredu

Bydd y Brifysgol/Coleg Preswyl, ar y cyd â'r Tîm Diogelu Iechyd ac eraill perthnasol, yn cytuno ar gamau gweithredu penodol ac yn eu neilltuo i unigolion perthnasol yn ôl natur y digwyddiad.

Yn benodol, rhoddir ystyriaeth i'r canlynol: -

- Sefydlu llinellau cyfathrebu rhwng y sefydliadau perthnasol.
- Rhoi cyngor a roddir gan y Tîm Diogelu Iechyd, y Bwrdd Iechyd Lleol a/neu Wasanaeth Diogelu'r Awdurdod Lleol ar waith yn ymarferol.
- Cyfathrebu ynghylch natur y Digwyddiad/Brigiad o Achosion â chymuned ehangach y Brifysgol/Coleg Preswyl (staff, myfyrwyr ac aelodau'r cyhoedd).
- Sefydlu Llinell Gymorth Prifysgol/Coleg Preswyl.
- Cynllun “cyfaill”[a] gyfer myfyrwyr sy’n sâl yn y neuaddau ac yn y gymuned ehangach.
- Hwyluso’r gwaith o nodi achosion a'u cysylltiadau.

- Cysylltu â theulu a ffrindiau (os yw'n berthnasol ac yn angenrheidiol) – er y rhagwelir y bydd hyn yn cael ei wneud yn bennaf naill ai drwy'r Tîm Diogelu Iechyd a/neu'r Bwrdd Iechyd Lleol.

[a] Cynllun cyfaill - Dylid annog pob myfyriwr newydd i ofalu am eu lles ei gilydd; hefyd, hysbysu rhywun (ffrind neu warden) os ydynt yn teimlo'n sâl, neu os yw rhywun arall yn teimlo'n sâl, fel y gellir eu monitro'n rheolaidd a cheisio sylw meddygol ar unwaith os bydd eu cyflwr yn dirywio[1].

Lle y gwelir bod difrifoldeb y Digwyddiad neu'r Brigiad o Achosion yn cynyddu, dylai'r person a nodwyd ym Mholisi Argyfwng y Brifysgol/Coleg Preswyl uwchgyfeirio'r cyfrifoldeb am gydlynu i gydweithiwr uwch yn unol â Chynllun Parhad Busnes y Brifysgol/Coleg Preswyl.

Mae Atodiad 1 yn cynnwys algorithm o gamau gweithredu sy'n ofynnol gan y Brifysgol/Coleg Preswyl.

## Rhifau Cyswllt Brys

| Tîm Diogelu Iechyd/AWARE - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru) | |
|---|---|
| **Tîm Diogelu Iechyd (TDI) Ymateb Acíwt Cymru Gyfan Ar gael yn ystod Oriau Swyddfa, 9am i 5pm** | Mae TDI Ymateb Acíwt Cymru Gyfan yn cwmpasu pob Prifysgol a Choleg Preswyl yng Nghymru:<br><br>0300 003 0032<br><br>E-bost Ymateb Acíwt Cymru Gyfan **(yn cael ei fonitro yn ystod oriau swyddfa yn unig)**: aware@wales.nhs.uk |
| **Y Tîm Diogelu Iechyd – y tu allan i oriau swyddfa (trwy Wasanaeth Ateb a Thrin Galwadau Arbenigol 'We Are Frontline')** | 0300 003 0032 |

## 2) Y Dull Rhagweithiol

Rôl Hyrwyddo Iechyd o fewn y Coleg/Prifysgol yw anelu negeseuon allweddol at fyfyrwyr ynghylch mesurau y gallant eu cymryd i leihau risg salwch a chlefydau, a'u lledaeniad ymhlith myfyrwyr y Coleg/Prifysgol, er mwyn eu hamddiffyn eu hunain ac eraill.

Gellir ymgymryd â rhai o'r mesurau hyn cyn i'r myfyriwr ddechrau ei astudiaethau addysgol a dylid eu hannog o gyswllt cyntaf y lleoliad addysgol â'r myfyriwr wrth hyrwyddo lles y myfyrwyr sy'n mynychu'r Brifysgol/Coleg.

Dylai'r meysydd i'w hystyried fod fel a ganlyn:

- Dylid adolygu statws brechu myfyrwyr cyn dechrau yn y lleoliad er mwyn sicrhau bod eu brechiad llid yr ymennydd yn gyfredol.
- Dylid tynnu sylw myfyrwyr i arwyddion a symptomau llid yr ymennydd.
- Dylid sgrinio myfyrwyr sy'n dod o wledydd sydd â risg uchel o achosion o Dwbercwlosis (TB) e.e. gwledydd yn Affrica, Asia, De America, Rwsia a Dwyrain Ewrop, fel rhan o'u cais cyn-mudo. Dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais am fisa i'r DU am fwy na 6 mis ac sy'n byw mewn gwlad lle mae TB yn gyffredin (mae nifer yr achosion dros 40/100,000), gael eu sgrinio am TB ysgyfeiniol. Dim ond ar ôl i'r ymgeisydd gael tystysgrif clirio i ddangos ei fod yn rhydd rhag TB ysgyfeiniol gweithredol y dylid prosesu ceisiadau am fisa. Mae'r Daflen Sgrinio TB ar gyfer y DU hon yn disgrifio'r prosesau a'r gofynion ar gyfer sgrinio cyn mynediad.
- Dylid annog pob myfyriwr i gofrestru gyda meddyg teulu lleol pan fydd yn dechrau yn y lleoliad, yn enwedig myfyrwyr rhyngwladol a allai fod â gofynion iechyd parhaus.

a) Cynghorir y dylai Prifysgolion a Cholegau, wrth dderbyn myfyriwr i'w lleoliad, rannu, naill ai drwy e-bost neu ffurflen gyfryngau eraill, y llythyr cais bod y myfyriwr yn cofrestru gyda Meddyg Teulu ger eu Prifysgol/Coleg am gyfnod ei astudiaethau. Gweler Atodiad 2 am enghraifft. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fyfyrwyr rhyngwladol a allai fod ag anghenion iechyd parhaus.

b) Yn ail, dylai myfyrwyr sicrhau eu bod wedi cael y brechiadau angenrheidiol gan gynnwys llid yr ymennydd; mae rhagor o wybodaeth ar gael yma Myfyrwyr - A yw brechu ar eich rhestr o bethau i'w gwneud? - Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae pecyn cymorth hefyd ar gael ar: Pecyn cymorth cyfathrebu'r Brifysgol ar frechlynnau, yn ogystal ag adnoddau Iechyd Cyhoeddus Cymru: Llyfrgell Asedau Iechyd Cyhoeddus Cymru (brandkitapp.com) y gallwch gofrestru i'w defnyddio.

c) Dylid annog myfyrwyr sydd angen gwneud cais am fisa i astudio i sicrhau eu bod wedi ymgymryd â'r broses sgrinio TB (os oes angen) a dylent fod yn barod i ddarparu eu tystysgrif

clirio TB ar gyfer eu cofnodion cofrestru newydd gyda meddyg teulu a'u cofnod myfyriwr. Gweler y canlynol am gyngor pellach: Profion twbercwlosis ar gyfer ymgeiswyr fisa: Gwiriwch a oes angen prawf TB arnoch ar gyfer eich cais am fisa - GOV.UK (www.gov.uk). Noder bod angen i fyfyrwyr a staff gael prawf twbercwlosis (TB) os yw'r canlynol i gyd yn wir:

- rydych chi'n dod i'r DU am 6 mis neu fwy
- rydych chi wedi byw yn unrhyw un o'r gwledydd rhestredig canlynol am 6 mis neu fwy
- roeddech chi'n byw yno (neu mewn gwlad arall a restrir) o fewn y 6 mis diwethaf.

d) Efallai y bydd lleoliadau addysgol hefyd eisiau darparu dolenni i wybodaeth am frechu, Ymwybyddiaeth o TB ac Ymwybyddiaeth o Lid yr Ymennydd cyn Wythnos y Glas fel y gwelir yn Myfyrwyr - A yw brechu ar eich rhestr o bethau i'w gwneud? - Iechyd Cyhoeddus Cymru, Sgrinio am Dwbercwlosis - GOV.UK (www.gov.uk) ac Ymwybyddiaeth y Cyhoedd a Hybu Iechyd - Y Gwir am TB, a Chanllawiau a Rheoli Llid yr Ymennydd Meningococol a Septisemia mewn Sefydliadau Addysg Uwch (publishing.service.gov.uk)

e) Mae llawer o Brifysgolion a Cholegau eisoes yn cyfathrebu â myfyrwyr trwy wahanol blatfformau cyfryngau ar amrywiol faterion iechyd, gan rannu negeseuon byr sy'n amlygu ac yn tynnu sylw at ofynion lles penodol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnwys amrywiaeth o negeseuon sydd eisoes wedi cael eu defnyddio yn ystod amrywiol ymgyrchoedd y gallai'r lleoliadau eu defnyddio. Mae'r rhain ar gael yn Atodiad 3, gan gynnwys llythyr enghreifftiol y gellir ei ddefnyddio ar gyfer dechreuwyr newydd.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn darparu amrywiol ddogfennau i gyfeirio atynt a chymorth ar gyfer lleoliadau addysgol. Mae hyn yn cynnwys canllawiau cyfnodau gwahardd (A-Y o heintiau), diogelu iechyd mewn lleoliadau plant a phobl ifanc, yn ogystal ag offer ar gyfer rheoli brigiadau o achosion. Gellir dod o hyd i'r rhain fel a ganlyn: Canllawiau ar gyfer lleoliadau gofal plant, cyn-ysgol ac addysgol - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru) yn AWARe/Tîm Diogelu Iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

## Cyfeiriadau:

[1] Canllawiau ar atal a rheoli llid yr ymennydd meningococol a septisemia mewn sefydliadau addysg uwch:
https://www.gov.uk/government/publications/meningitis-and-septicaemia-prevention-and-management-in-higher-education-institutions A
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/582511/MenACWY_HEI_Guidelines.pdf

[2]Mae'r Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru ("Cynllun Brigiadau Cymru") ar gael yma: https://phw.nhs.wales/topics/the-communicable-disease-outbreak-plan-for-wales1/

[3]Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010
[Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010](https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/health-protection-guidance-2010.pdf)**Error! Hyperlink reference not valid.** A
https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/health-protection-guidance-2010.pdf

# Atodiad 1

## Algorithm o gamau gweithredu i Brifysgol/Coleg Preswyl eu dilyn ar gyfer un neu fwy o achosion a amheuir/a gadarnheir o glefyd trosglwyddadwy[3]:

Daw aelod o staff y Brifysgol/Coleg Preswyl i wybod am un achos neu fwy a amheuir neu a gadarnheir o glefyd trosglwyddadwy o bwys diogelu iechyd[3]

↓

Mae aelod o staff y Brifysgol/Coleg Preswyl yn hysbysu'r person a nodwyd ym Mholisi Argyfwng y Brifysgol/Coleg Preswyl e.e. y person sy'n gyfrifol am Iechyd a Diogelwch

↓

Mae'r person a nodwyd ym Mholisi Argyfwng y Brifysgol/Coleg Preswyl yn hysbysu:
- Adnoddau Dynol neu Wasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn ôl yr angen, yn dibynnu a yw'r achos(ion) a amheuir/a gadarnheir yn aelod o staff neu fyfyriwr (neu'r ddau)
- Tîm Diogelu Iechyd (TDI) Iechyd Cyhoeddus Cymru

↓

Bydd TDI yn:
- Ymgynghori â'r Tîm(au) Clinigol sy'n rheoli un achos neu fwy a amheuir/a gadarnheir i benderfynu ar ddiagnosis gweithredol.
- Adolygu nodiadau achos(ion) a'r rhai a hysbyswyd yn ystod y 4 wythnos flaenorol am unrhyw gysylltiadau epidemiolegol i benderfynu a yw'n achos ysbeidiol/clwstwr/brigiad o achosion.
- Cynghori'r Person a nodwyd ym Mholisi Argyfwng y Brifysgol/Coleg Preswyl os oes angen cymryd camau pellach i ddiogelu iechyd e.e. llythyr at fyfyrwyr; neu os bydd Digwyddiad/Brigiad o

→

Bydd y person a nodwyd ym Mholisi Argyfwng y Brifysgol/Coleg Preswyl yn:
- Gweithredu cyngor TDI fel y nodwyd.
- Cynnull Tîm Lefel Tactegol (TLT) y Brifysgol/Coleg Preswyl os bydd TDI yn datgan Digwyddiad/Brigiad o Achosion.
- Uwchgyfeirio'r cyfrifoldeb am gydlynu i gydweithiwr uwch yn unol â Chynllun Parhad Busnes y Brifysgol/Coleg Preswyl pe bai difrifoldeb y Digwyddiad/Brigiad o Achosion yn cynyddu.

↓



Os bydd TDI yn datgan Digwyddiad/Brigiad o achosion, bydd TLT y Brifysgol/Coleg Preswyl yn:
- Ar y cyd â TDI a phobl eraill berthnasol, cytuno a dynodi camau gweithredu penodol i unigolion perthnasol eraill ar ôl ymgynghori â'r sawl sy'n gyfrifol am weithrediadau, yn ôl natur y digwyddiad.
- Sefydlu llinellau cyfathrebu rhwng y sefydliadau perthnasol.
- Rhoi cyngor a roddir gan TDI, y Bwrdd Iechyd Lleol a/neu Wasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yr Awdurdod Lleol ar waith yn ymarferol.
- Cyfleu natur y Digwyddiad/Brigiad o achosion i gymuned ehangach y Brifysgol/Coleg

## Atodiad 2

Agorwch y llythyr a diwygiwch y 'pennawd' gyda'r wybodaeth briodol.  Naill ai argraffwch y llythyr i'w bostio neu crëwch gopi 'pdf' i'w atodi i neges e-bost.

Llythyr ColegPrifysgol
Rhagweithiol ar gyfer

## Atodiad 3

Y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela (MMR) - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Llid yr ymennydd a chlefyd meningococol - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Llyfrgell Asedau Iechyd Cyhoeddus Cymru (brandkitapp.com)

Myfyrwyr - Ydy brechu ar eich rhestr o bethau i'w gwneud? - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Pecyn cymorth cyfathrebu’r Brifysgol ar frechlynnau